**Academi Ifanc y DU yn penodi 42 o aelodau datblygol newydd**

Heddiw, cafodd 42 o arweinwyr datblygol o bob cwr o'r DU eu henwi fel aelodau diweddaraf Academi Ifanc y DU - rhwydwaith rhyngddisgyblaethol o weithwyr proffesiynol ac ymchwilwyr gyrfa gynnar sy'n gweithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â heriau byd-eang a lleol dybryd a hyrwyddo newid parhaol.

Daw'r aelodau diweddaraf o amrywiaeth eang o sectorau, gyda chefndiroedd mewn gwyddor gwleidyddiaeth, peirianneg, llywodraeth, cyfathrebu a'r diwydiannau creadigol a pherfformio, ymhlith eraill. Bu i bob aelod ddangos potensial eithriadol o addawol yn eu maes yn ogystal â dangos ymrwymiad cryf i gymhwyso eu harbenigedd y tu hwnt i'w prif feysydd gwaith, gyda chymhelliant i ymgysylltu mewn ffyrdd sy'n croesi ffiniau disgyblaethol traddodiadol ac sy'n cyd-fynd â nodau Academi Ifanc y DU.

Fel aelodau o Academi Ifanc y DU, bydd cyfle iddynt weithredu ar faterion lleol a byd-eang. Drwy brosiectau rhyngddisgyblaethol a gweithio ar draws sectorau, byddant yn pontio bylchau, yn annog arloesedd, ac yn datblygu'r syniadau sydd eu hangen i fynd i'r afael â heriau tyngedfennol - y cyfan wrth ddatblygu eu gyrfaoedd proffesiynol a chyfrannu at rwydwaith byd-eang o Academïau Ifanc sy'n canolbwyntio ar gyflawni canlyniadau cadarnhaol.

**Gan siarad ar ran Pwyllgor Dethol Aelodaeth Academi Ifanc y DU, dywedodd Alistair McConnell, Athro Cynorthwyol mewn Cyfrifiadureg ym Mhrifysgol Heriot-Watt:**"Ni ddaw'r datrysiadau i heriau mwyaf dybryd y byd o faes neu bersbectif unigol. Mae angen i ni ddwyn ynghyd arbenigeddau a dealltwriaethau o amrywiaeth o ddisgyblaethau."

"Heddiw, mae'n bleser gennym gael croesawu ein haelodau diweddaraf, y bydd eu cefndiroedd a'u harbenigeddau amrywiol yn dod â safbwyntiau newydd i Academi Ifanc y DU. Bydd cyfle i'r aelodau hyn herio ffiniau, creu cysylltiadau newydd, a chydweithio er mwyn datblygu datrysiadau arloesol i'r heriau pwysicaf."

"Wrth i ni ddechrau ein trydedd flwyddyn fel sefydliad, bydd modd i'r aelodau newydd gyfrannu o'r cychwyn cyntaf. Drwy gymryd rhan mewn prosiectau a rhaglenni gwaith arloesol, neu drwy sicrhau bod lleisiau gyrfa gynnar yn rhan o drafodaethau allweddol lleol a byd-eang, byddant mewn sefyllfa i wneud cyfraniad ystyrlon."

Am y tro cyntaf, cafodd grŵp dethol o arweinwyr datblygol eu dewis i fod yn aelodau o Academi Ifanc y DU drwy lwybr pwrpasol mewn cydweithrediad â'r Council of At-Risk Academics (Cara). Gwahoddwyd academyddion agored i risg o rwydwaith Cara i wneud cais am aelodaeth fel rhan o brosiect Academi Ifanc y DU sy'n cael ei arwain gan aelodau ac sy'n canolbwyntio ar gefnogi ymchwilwyr gyrfa gynnar agored i risg ledled y DU.

Yr wythnos nesaf, bydd aelodau diweddaraf Academi Ifanc y DU yn dod ynghyd ar gyfer eu Diwrnod Cynefino, lle byddant yn dysgu am weithgareddau a rhaglenni Academi Ifanc y DU. Dilynir hyn gan drydydd Cyfarfod blynyddol yr Aelodaeth Lawn, gan nodi'r cyfle cyntaf i'r grŵp newydd hwn gysylltu â'r aelodaeth ehangach.

Bydd yr aelodau newydd yn dechrau eu rolau ar 1 Ebrill 2025, ac mae'r aelodaeth yn rhedeg am bum mlynedd.

**DIWEDD**

Cysylltu

Am ragor o wybodaeth ynghylch Academi Ifanc y DU ac i ofyn am gyfweliadau â llefaryddion, cysylltwch ag Academi Ifanc y DU:

**Amy Fry**
Rheolwr Rhaglen Academi Ifanc y DU
02074512582
enquiries@ukyoungacademy.org

**Nodiadau i olygyddion**

Cefndir Academi Ifanc y DU
Mae Academi Ifanc y DU yn cysylltu ac yn datblygu unigolion talentog sydd ym mlynyddoedd cynnar eu gyrfaoedd o ystod eang o sectorau er mwyn iddynt allu cydweithio i wneud gwahaniaeth yn y byd.

Mae'n rhan o fenter ryngwladol sy'n tyfu, ac sy'n rhoi llais i arloeswyr, gweithwyr proffesiynol, academyddion ac entrepreneuriaid ifanc sydd ar ddechrau eu gyrfa er mwyn hybu materion sy'n bwysig iddyn nhw. Mae Academi Ifanc y DU yn rhoi cyfle i'w haelodau sicrhau bod eu safbwyntiau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaethau yn cael eu cynrychioli fel rhan o dirwedd ehangach y cyrff academaidd a phroffesiynol yn y DU.

Cafodd Academi Ifanc y DU ei sefydlu'n wreiddiol yn dilyn cytundeb rhwng saith uwch Academi yn y DU - yr Academi Gwyddorau Meddygol, yr Academi Brydeinig, Cymdeithas Ddysgedig Cymru, Academi Frenhinol Peirianneg, Academi Frenhinol Iwerddon, Cymdeithas Frenhinol Caeredin, a'r Gymdeithas Frenhinol. Gan weithio'n agos â'r Academi Ifanc Fyd-eang ac Academi Ifanc yr Alban, cafodd ei sefydlu dan nawdd y Gymdeithas Frenhinol yn 2022.

Mae rhaglenni gwaith a mentrau sy'n cael eu harwain gan aelodau mewn cydweithrediad gyda phartneriaid a sefydliadau allanol eisoes ar waith, gyda'r nod o fynd i'r afael â blaenoriaethau strategol yr academi ifanc gafodd eu gosod yn ei blwyddyn gyntaf. https://ukyoungacademy.org/

Mae Academi Ifanc y DU ar Linked In

Bydd Academi Ifanc y DU yn gweithredu ar sail cyfuniad cyffredin o werthoedd yn cynnwys:

Rhagoriaeth – bydd aelodau yn rhagori yn eu meysydd eu hunain.

- Tryloywder – bydd strwythur arweinyddiaeth clir sy'n atebol ac wedi'i ethol drwy weithdrefnau tryloyw.
- Uniondeb – bydd aelodau yn cynnal safonau uchel o ran moeseg er mwyn gwneud cyfraniad credadwy at faterion byd-eang.
- Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant – gwneir ymrwymiad i ddenu aelodaeth amrywiol, a bydd aelodau yn ymrwymo i gynnal amgylchedd cynhwysol a chyfartal i bawb.
- Mae cyllid cychwynnol i sefydlu Academi Ifanc y DU wedi'i ddarparu gan Adran Gwyddoniaeth, Arloesedd a Thechnoleg Llywodraeth y DU fel rhan o'i Strategaeth Pobl a Diwylliant Ymchwil a Datblygu.